| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 6 Chwefror 2025 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau |
| **Penaethiaid Gwasanaeth** | Emlyn Jones/Liz Grieve/Ann Lloyd |
| **Awdur yr adroddiad** | Jane Abbott, Uwch Swyddog - Cynllunio Strategol a Thai |
| **Teitl** | Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Edrych ar y cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflwyno'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir yn Rhagfyr 2020 (yr adroddiad hefyd i gynnwys data a dadansoddiad ar yr effaith gyfredol, ynghyd ag effaith bosib y dyfodol, ar y Gwasanaeth Digartrefedd o gyflwyno'r cyfnod rhybudd terfynu tenantiaeth o chwe mis yn y sector rhentu preifat)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Galluogi Aelodau i edrych ar gyflwyniad y Strategaeth Tai a Digartrefedd hyd yma a darparu adborth ar y cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnydd y Strategaeth a darparu adborth perthnasol ar weithredu'r cynllun gweithredu.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych yn gosod gweledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Mae'n hi'n ddogfen gorfforaethol bwysig i'r Cyngor ac yn darparu fframwaith ar gyfer

swyddogaethau tai a digartrefedd y Cyngor (preifat a chyhoeddus). Mae'r Strategaeth wedi'i gosod o fewn fframwaith y Cynllun Corfforaethol fel y nodir yn 5.1 ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r Strategaeth yn nodi 6 "Thema" sydd yn feysydd blaenoriaeth i'w targedu ac i'w rhoi ar waith:

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol.
- Creu cyflenwad o dai fforddiadwy.
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach.
- Atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn.
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau.

4.2. Mae gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Tai a Digartrefedd y Cynllun Corfforaethol, a gadeirir gan y Cyng. Rhys Thomas yn ei swyddogaeth fel Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau. Mae Aelodau o'r Grŵp yn cynnwys yr Aelodau Arweiniol hynny â chyfrifoldeb am ardal o dai neu ddigartrefedd o fewn eu portffolios, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai.

4.3. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth yn cynnwys 42 o gamau gweithredu ar hyn o bryd. Mae'r Strategaeth yn ddogfen fyw, ac mae camau gweithredu yn cael eu hychwanegu fel bo'n briodol pan fo prosiectau'n cael eu cwblhau, a rhai newydd yn cael eu nodi os ydynt yn cyfrannu at y thema.

4.4. Bellach mae 24 cam gweithredu wedi eu cwblhau a'u cynnwys fel 'busnes fel arfer' o fewn y gwasanaeth perthnasol, mae 13 cam gweithredu ar y trywydd iawn a 5 wedi cael rhywfaint o heriau, fodd bynnag mae hyn yn cael ei reoli'n weithredol, ac maent yn parhau i ddatblygu ac ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau trwy fywyd y Strategaeth. Nid oes unrhyw gamau gweithredu coch.

4.5. Mae camau gweithredu'n cael eu hadolygu cyn bob cyfarfod ac mae'r cynllun gweithredu ar gael i bob aelod o'r grŵp cyn y cyfarfod chwarterol, i sicrhau bod amser i fonitro cynnydd y Strategaeth a herio fel bo'n briodol.

**Mae meysydd allweddol o gynnydd 2023/2024 yn cynnwys:**

- Cyflwynwyd 155 o anheddau tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych yn 2023/24, o'r rhain roedd 123 o anheddau yn adeiladau newydd.

- Ers dechrau'r Strategaeth Tai a Digartrefedd 2021[1], mae cyfanswm o 781 o anheddau fforddiadwy wedi eu cyflwyno
- Mae datblygiadau newydd y Cyngor i 'rai dros 50' wedi eu cwblhau yn Llys Llen, Prestatyn a Llys Elizabeth, y Rhyl a thrwy dargedu tenantiaid sy'n tanfeddiannu ar gyfer y rhandai newydd hyn rhyddhawyd 23 eiddo cymdeithasol angen cyffredinol i deuluoedd ar gyfer tenantiaid newydd.
- Ers cyflwyno'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth yn Rhagfyr 2020, cyflwynwyd 191 trwydded - 54 ohonynt yn anheddau newydd i'r cynllun trwyddedu.
- Mae Fy Nghartref Sir Ddinbych, prosiect cydweithredol ymyrraeth gynnar rhwng Clwyd Alyn, Shelter Cymru a Chyngor Sir Ddinbych, sy'n targedu dinasyddion yn gynharach yn y broses na'r hyn sy'n ofynnol wedi bod yn weithredol am 2 flynedd. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 491 o ddinasyddion sydd dan fygythiad o ddigartrefedd gan anelu i ostwng nifer y bobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Statudol wrth ganfod atebion llety priodol.
- Mae 102 o gartrefi yn Sir Ddinbych (Ionawr 2024 - Tachwedd 2024) wedi eu gwella gyda phaneli solar ffotofoltäig ac mae 13 cartref wedi cael pympiau gwres yr awyr, inswleiddio a gwaith awyru trwy gyllid ECO4.

4.6. Cafodd y newid mewn rheoliadau o ran y broses rhybudd troi allan oherwydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) eu gweithredu ar 1 Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn dangos yr aelwydydd digartrefedd sydd wedi cael dyletswydd i gynorthwyo gan CSDd a'r rheswm dros ddigartrefedd oedd colli rhent neu lety clwm. Yn y tabl hefyd mae'r rhai sydd wedi eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent.

| Blwyddyn | Colli llety wedi'i rentu neu lety clwm | Ôl-ddyledion rhent mewn anheddau yn y sector preifat |
|---|---|---|
| 2021/22 | 157 | 2 |
| 2022/23 | 218 | 3 |
| 2023/24 | 226 | 3 |
| 2024/25 (hyd yma) | 83 | 6 |

4.7. Gellir gweld o'r data bod cynnydd mawr mewn aelwydydd yn cysylltu â CSDd, oherwydd colli eu llety rhent. Cyhoeddwyd Fy Nghartref Sir Ddinbych hefyd yn chwarter olaf 2022 ac mae wedi cynorthwyo aelwydydd gyda gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Yn Chwarter 1 2024/25, mae'r data a gasglwyd yn dangos fod 81.71% o atgyfeiriadau a wnaed i Fy Nghartref Sir Ddinbych yn rhai gan bobl yn y Sector Rhentu Preifat, yn ceisio cymorth gyda'r nod o atal unigolion rhag gorfod defnyddio gwasanaethau statudol neu lety dros dro.

[1]Blwyddyn adrodd 2020-21

4.8. I grynhoi mae’r Strategaeth Tai a Digartrefedd yn parhau i gael ei gweithredu gan amrywiol adrannau’r Cyngor ac ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau erbyn Rhagfyr 2026.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Y Strategaeth Tai a Digartrefedd yw un o’r prif gerbydau ar gyfer cyflawni thema’r Cyngor o ‘Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl’. Mae’r Strategaeth hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau ‘Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar’ a ‘Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd.’

5.2. Trwy thema’r Strategaeth o ‘Sicrhau cartrefi diogel ac iach’ mae mentrau sy’n gwneud cyfraniad cadarnhaol i nod y Cyngor o’r Cyngor i ddod yn Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

5.3. Mae’r rhain yn cynnwys y cynllun ECO4 (cam gweithredu 3.08) sy’n gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sydd â mesurau ynni gwael a rhaglen datgarboneiddio cartrefi’r Cyngor (cam gweithredu 3.02)

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau’r prosiectau’n cael eu monitro’n agos.  Bydd yr holl gostau’n cael eu cadw o fewn y gyllideb – rhai ni a’n partneriaid.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad blynyddol gan ei fod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad, ac nid yw cyhoeddi’r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau’r dyfodol. Fodd bynnag, cynhaliwyd Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer y Strategaeth pan gafodd ei mabwysiadu.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae ystod o fecanweithiau ar waith i fonitro cynnydd, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd i’r Bwrdd Tai Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau pan mae’n ofynnol gan y Pwyllgor Craffu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Dim angen un

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn brif flaenoriaeth i’r Cyngor. Mae ystod o fecanweithiau ar waith i fonitro cynnydd, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd i’r Bwrdd Tai Cynllun Corfforaethol a phan mae’n ofynnol gan y Pwyllgor Craffu.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Tai 1985 (A8), Deddf Tai 2004 (A8), Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A87), Deddf Tai (Cymru) 2014.